Myfyrdod y Mis – Awst 2011

Myfyrdodau Byrion ar Ferched yr Hen Destament : Efa

"Rhoes y dyn enw ar yr holl anifeiliaid, ar adar yr awyr, ac ar yr holl fwystfilod gwyllt; ond ni chafodd ymgeledd cymwys iddo'i hun. Yna parodd yr Arglwydd Dduw i drymgwsg syrthio ar y dyn, a thra oedd yn cysgu, cymerodd un o'i asennau a chau ei lle â chnawd: ac o'r asen a gymerodd gwnaeth yr Arglwydd Dduw wraig, a daeth â hi at y dyn. A dywedodd y dyn, "Dyma hi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. Gelwir hi yn wraig, am mai o ŵr y cymerwyd hi." Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd. Yr oedd y dyn a'i wraig ill dau yn noeth, ac nid oedd arnynt gywilydd." (Genesis 2: 20 – 25)

A phan ddeallodd y wraig fod y pren yn dda i fwyta ohono, a'i fod yn deg i'r golwg ac yn bren i'w ddymuno i beri doethineb, cymerodd o'i ffrwyth a'i fwyta, a'i roi hefyd i'w gŵr oedd gyda hi, a bwytaodd yntau. Yna agorwyd eu llygaid hwy ill dau i wybod eu bod yn noeth, a gwnïasant ddail ffigysbren i wneud ffedogau iddynt eu hunain." (Genesis 3: 6-7)

The Creation of Eve gan Paolo Caliari 1528 – 88)

Lluniodd Duw Adda o lwch y tir, ac er bod digon o anifeiliaid ac ati o'i gwmpas, "*nid da bod y dyn ar ei ben ei hun*" (Genesis 2: 18). 'Roedd angen "ymgeledd cymwys" arno. Felly, lluniodd Efa allan o ochr Adda. Nid o'i droed y lluniwyd hi, iddi fod yn ddarostyngedig iddo; nac ychwaith o'i ben i fod yn feistres arno, ond o'i ochr er mwyn iddynt fod yn gydradd. Sylwch ar ymateb Adda. Dyma'r tro cyntaf inni glywed hwn yn siarad. "*Dyma hi!*", meddai fe. Wrth ei fodd! Heb os ac oni bai dyma 'ymgeledd cymwys'. "Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd." Gwêl ei hunan ynddi hi, gwêl y berthynas annatod sydd rhyngddynt. Bellach, mae ei dynged ef ynghlwm wrth ei thynged hi. (Llun: *The Creation*

"*Yr oedd y dyn a'i wraig ill dau yn noeth ...*" Yng nghwmni eu Creawdwr mae'r ddau yn hollol ddiamddiffyn ond yn hollol ddiogel, "*ac nid oedd arnynt gywilydd.*" Buasai'n braf pe bai hon oedd brawddeg glo'r stori; y dechrau yn addo parhad y llawenydd. Fel hyn yr hoffwn weld stori dda yn gorffen ond mynd ymlaen y mae hon, ac wrth fynd ymlaen mae pethau'n gwaethygu.

Fe ddaw'r sarff, "*yn fwy cyfrwys na'r holl fwystfilod gwyllt*" (Genesis 3:1). Fe wyddoch yr hanes! Wedi gosod mwy o bwys ar eiriau llyfn y sarff nag ar Air Duw, cymerodd Efa o ffrwyth y goeden yng nghanol yr Ardd, a'i roi hefyd i Adda. Sylwer nad oedd angen rhyw lawer o berswâd ar Adda, "*a bwytaodd yntau*" yn ddigon bodlon. Nid hudoles mo Efa, ac Adda druan yn ddiniwed. Mae'r ddau mor ffôl â'i gilydd, yn dilyn wrth gwt y sarff i ganol storm o ofidiau. (Llun: *Adam and Eve* gan Raphael (1483-1520). Hawlfraint: Lluniau'r Fatican)

"... gwyddost gudd feddyliau 'nghalon
a chrwydriadau mynych hon:
O tosturia,
ymgeledda fi â'th ras.

(R.M. Jones (Meigant; 1851 – 99) *C.Ff.* 700)